# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Mehefin 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 215(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am gynnig cyflog diwygiedig Llywodraeth Cymru i BMA Cymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**Cynnig o dan Reolau Sefydlog 12.24 a 12.40 i grwpio'r cynigion a ganlyn ar gyfer dadl ac ar gyfer pleidleisio:**

**NNDM8609** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Luke Fletcher (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn lle Peredur Owen Griffiths (Plaid Cymru).

**NNDM8610** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Siân Gwenllian (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Luke Fletcher (Plaid Cymru).

**NNDM8611** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Heledd Fychan (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol yn lle Llyr Gruffydd (Plaid Cymru).

**NNDM8612** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Cefin Campbell (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Heledd Fychan (Plaid Cymru).

**NNDM8613** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru) yn lle Adam Price (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

(5 munud)

**NDM8601** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Pharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac o dan Reol Sefydlog 10.5:

Yn penodi Dr Ian Rees yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o 12 Mehefin 2024 tan 11 Mehefin 2028.

Noder: Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Benodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2024.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Gweithredu, nid geiriau: creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030

(60 munud)

**NDM8602** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Gweithredu, nid geiriau: creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030', a osodwyd ddydd Gwener 15 Mawrth 2024.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2024.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Polisi economaidd

(60 munud)

**NDM8606** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu:

a) cynllun clir a chamau dewr Llywodraeth y DU i bennu llwybr er mwyn sicrhau dyfodol diogel;

b) camau Llywodraeth y DU i leihau chwyddiant o 11.1 y cant i 2.3 y cant;

c) y ffaith mai'r DU yw'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn y G7;

d) y bargeinion twf rhanbarthol ym mhob rhan o Gymru, sy'n sicrhau mai Cymru yw'r unig genedl Bargeinion Twf yn y DU; ac

e) porthladdoedd rhydd Llywodraeth y DU yng ngogledd a de Cymru, ynghyd â'i pharthau buddsoddi ar gyfer gweithgynhyrchu uwch.

2. Yn gresynu bod gan Gymru, o dan Lywodraeth Cymru:

a) y gyfradd gyflogaeth isaf;

b) y cyflogau canolrifol isaf; ac

c) y gyfradd uchaf o anweithgarwch economaidd yn y DU.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu amgylchedd i fusnesau fuddsoddi a chreu swyddi drwy:

a) sicrhau ffyniant broydd ledled Cymru gyda lefelau cymesur o fuddsoddiad ym mhob rhan o'r wlad;

b) adfer rhyddhad ardrethi busnes i 75 y cant ar gyfer y sector manwerthu, lletygarwch a hamdden i gefnogi busnesau a diogelu swyddi;

c) cael gwared ar ardrethi busnes i fusnesau bach;

d) galluogi microfusnesau i dyfu gyda chynllun sbardun gan dalu yswiriant gwladol ar ran y cyflogwr ar gyfer dau gyflogai am ddwy flynedd;

e) cyflwyno 150,000 o brentisiaethau newydd yn nhymor y Senedd nesaf; ac

f) creu cynllun i roi hwb i fusnesau lleol, a'i ariannu'n llawn, er mwyn cefnogi egin fusnesau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu:

a) cynllun clir Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y ddogfen Cenhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach;

b) y ffaith bod cyflogau wedi codi'n gyflymach yng Nghymru nag yn Lloegr ers 2011;

c) y ffaith bod gwaith rhanbarthol a phartneriaethau mor gadarn;

d) buddsoddiad gwerth dros £143 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn prentisiaethau o safon uchel;

e) y ffaith bod Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru wedi cefnogi dros 27,000 o bobl ifanc;

f) y buddsoddiad sydd wedi parhau drwy Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru;

g) darparu gwerth dros £140m mewn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sy'n cefnogi trethdalwyr oddeutu 70,000 eiddo ledled Cymru bob blwyddyn; a

h) y cyfraniad o £78m sy'n golygu bod busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch wedi derbyn cymorth bob blwyddyn am y pum mlynedd diwethaf gyda'u biliau ardrethi annomestig.

2. Yn gresynu at y canlynol o dan Lywodraeth y DU:

a) diffyg cynllun economaidd a diwydiannol clir heb unrhyw gynlluniau gwario manwl ar ôl 2024-25, gan arwain at 14 o flynyddoedd o anrhefn;

b) bod prisiau'n parhau i godi ar gyfradd uwch, sy'n golygu mai dyma'r cynnydd mwyaf ers annibyniaeth Banc Lloegr, a'r ffaith eu bod 21.3 y cant yn uwch ym mis Ebrill nag oeddent dair blynedd cyn hynny;

c) bod gan Lywodraeth Cymru Gyllideb yn 2024-25 sy'n £3 biliwn yn is na chyllideb a fyddai wedi cynyddu yn unol â Chynnyrch Domestig Gros ers 2010; a

d) bod gan Gymru bron i £1.3 biliwn yn llai o gyllid mewn termau real yn sgil methiant Llywodraeth y DU i anrhydeddu ei hymrwymiadau a chyflwyno cyllid llawn yn lle cyllid yr UE.

3. Yn galw ar Lywodraeth bresennol y DU i gydnabod:

a) mai'r newidiadau i'r gyfradd sylfaenol gan Fanc Lloegr a phrisiau ynni is yw'r prif resymau dros y gostyngiad diweddar mewn chwyddiant;

b) bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cadarnhau bod problemau gyda'r arolwg o'r llafurlu, sy'n parhau i effeithio ar ansawdd data o ran ystadegau'r farchnad lafur ac nad ydynt yn cyflwyno darlun cywir o'r sefyllfa yng Nghymru;

c) y niwed sylweddol a wnaed i'r Economi yn sgil mini-gyllideb drychinebus Liz Truss, sydd wedi golygu bod pobl a theuluoedd yng Nghymru yn talu morgeisi a biliau uwch; a

d) y cafodd y Gronfa Ffyniant Bro a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin eu datblygu heb lawer o waith cynllunio ac ymgynghori ac maent wedi tanseilio datganoli.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu:

a) y difrod economaidd a wnaed i Gymru yn sgil 14 mlynedd o gyni o dan Lywodraethau Ceidwadol y DU;

b) y niwed economaidd pellach a achoswyd gan Brexit caled a mini-gyllideb honedig Liz Truss;

c) nad yw Cymru'n derbyn cyllid teg gan San Steffan, ac nad yw fformiwla Barnett yn darparu setliad ariannu sy'n adlewyrchu anghenion economaidd, ariannol neu gymdeithasol Cymru;

d) bod Llywodraethau Ceidwadol y DU yn amlwg wedi methu â chodi'r gwastad o ran Cymru, a bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro wedi cael eu defnyddio i ariannu prosiectau tymor byr dros benaethiaid Llywodraeth Cymru a'r Senedd; ac

e) y cyfraddau uchel o dlodi, yn enwedig tlodi plant, sydd wedi deillio yn sgil dull y Ceidwadwyr o reoli economi'r DU.

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ym mhwynt 2, cynnwys is-bwynt newydd cyn is-bwynt (a) ac ailrifo yn unol â hynny:

dim targedau datblygu economaidd diffiniedig na mesuradwy clir;

**Gwelliant 4** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu amgylchedd i fusnesau fuddsoddi a chreu swyddi drwy:

a) sicrhau ffyniant broydd ledled Cymru gyda lefelau cymesur o fuddsoddiad ym mhob rhan o’r wlad;

b) adfer rhyddhad ardrethi busnes i 75 y cant ar gyfer y sector manwerthu, lletygarwch a hamdden i gefnogi busnesau a diogelu swyddi;

c) gosod targedau economaidd clir a mesuradwy;

d) darparu gwell cynnig cymorth busnes a gwell cymorth cynllunio olyniaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig domestig;

e) cyflwyno ymchwil ar drethi newydd posibl er budd busnesau;

f) darparu 150,000 o brentisiaethau newydd dros dymor nesaf y Senedd; a

g) creu cynllun i roi hwb i fusnesau lleol, a'i ariannu'n llawn, er mwyn cefnogi egin fusnesau.

**Gwelliant 5** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU sy'n dod i mewn i weithredu i sicrhau dyfodol economaidd Cymru drwy:

a) ceisio sicrhau bod y DU yn ailymuno â marchnad sengl ac undeb tollau'r UE, a hynny ar frys;

b) cael gwared ar fformiwla Barnett, a chyflwyno setliad cyllido teg newydd i Gymru sy'n adlewyrchu anghenion Cymru yn gywir; a

c) sicrhau bod cyfran deg o gyllid allforio'r DU yn cael ei ddarparu i Gymru, a bod cyllid i Gymru a gollwyd o ganlyniad i Brexit yn cael ei adfer.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(30 munud)

**NDM8604** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar wasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd wedi asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd ar 84 o argymhellion a oedd wedi'u cynnwys mewn pedwar adroddiad ar wahân ers 2013.

2. Yn gresynu bod chwech o'r 84 o argymhellion wedi'u categoreiddio'n goch, gan ddangos fawr ddim tystiolaeth o weithredu os o gwbl, a bod 40 wedi'u categoreiddio'n ambr, gan ddangs dim ond rhywfaint o dystiolaeth neu dystiolaeth gymedrol o weithredu, dros ddegawd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

3. Yn credu bod y cynnydd a wnaed ar weithredu'r argymhellion wedi'i danseilio gan y penderfyniad dadleuol i dynnu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr allan o fesurau arbennig ym mis Tachwedd 2020.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu argymhellion Adroddiad yr Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig yn llawn ac i nodi amserlenni clir ar gyfer cyflawni hyn; a

b) i gyhoeddi'r cyngor gweinidogol a arweiniodd at y penderfyniad i dynnu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr allan o fesurau arbennig ym mis Tachwedd 2020 ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall gan nodi'r goblygiadau i ddarpariaeth iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru.

Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar wasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adroddiad wedi ei gynnwys o dudalen 32 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi:

a) bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Adroddiad Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar Wasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ddarparu asesiad annibynnol o'r cynnydd a wnaed ers 2013;

b) o'r 84 o argymhellion a wnaed mewn perthynas â phedwar adroddiad blaenorol, canfu Coleg Brenhinol y Seiciatryddion fod y mwyafrif helaeth wedi cael eu gweithredu;

c) bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi derbyn adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn llawn ac y bydd yn ymateb yn ffurfiol iddo yn ei gyfarfod Bwrdd nesaf; a

d) y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wella gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn y Gogledd fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

i ymddiheuro i bobl sydd wedi colli anwyliaid a chleifion sydd wedi dod i niwed o ganlyniad i argymhellion heb eu gweithredu a methiant i gyflawni gwelliannau.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Polisi cynllunio ar gyfer llinellau pŵer newydd

(30 munud)

**NDM8605** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y safbwynt a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, sef y dylid gosod llinellau pŵer newydd o dan y ddaear lle y bo'n bosibl.

2. Yn credu, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, pan fo llinellau pŵer newydd yn cael eu gosod o dan y ddaear y dylid ei wneud drwy ddull aredig ceblau yn hytrach na chloddio ffos agored.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiweddaru paragraff 5.7.9 o Bolisi Cynllunio Cymru:

a) i ddileu'r cafeat presennol: 'Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cymryd safbwynt cytbwys o ran costau, a allai olygu bod prosiectau a fyddai'n dderbyniol fel arall, yn anhyfyw'; a

b) er mwyn sicrhau bod gosod seilwaith trawsyrru trydan newydd o dan y ddaear yn ofyniad absoliwt yn hytrach na safbwynt a ffefrir, dylai'r polisi nodi: 'dylid gosod llinellau pŵer newydd o dan y ddaear.'

Polisi Cynllunio Cymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn credu, lle bynnag y bo'n ffisegol bosibl, y dylai llinellau pŵer newydd gael eu gosod o dan y ddaear mewn modd sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol andwyol.

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau, yn unol â'r egwyddor ragofalus, y dylid cynnal asesiadau effaith ar iechyd gyda chynigion i osod llinellau pŵer newydd o dan y ddaear pan fydd eu hagosrwydd at gartrefi yn codi pryderon iechyd difrifol yn y dyfodol.

## 10 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 05/06/2024 i'w hateb ar 12/06/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS LYWODRAETH LEOL, TAI A CHYNLLUNIO

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ61236 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi canol trefi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OQ61246 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio cyfraith gynllunio i gryfhau mesurau i ddiogelu adeiladau hanesyddol?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

3 OQ61235 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am niferoedd y tai o dan berchnogaeth gyhoeddus a chydweithredol sydd yn cael eu hadeiladu yng Nghymru?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

4 OQ61232 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu yn Nwyrain De Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

5 OQ61223 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i adfywio canol trefi yn Sir Benfro?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ61244 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r heriau sy'n wynebu cyllidebau awdurdodau lleol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

7 OQ61245 **(w)**

All wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y cynnydd wrth geisio cyrraedd nod y Llywodraeth i godi 20,000 o dai cymdeithasol ar gyfer y sector rhentu erbyn diwedd y Senedd hon?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

8 OQ61250 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau mynediad i lyfrgelloedd cyhoeddus ar draws Canol De Cymru?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ61240 **(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau cynllunio i sicrhau bod gan gymunedau gwledig fwy o lais o ran y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ61228 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am y canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r lefelau derbyniol o gysgodion symudol ac iâ sy’n syrthio wrth ystyried ceisiadau am dyrbinau gwynt ar y tir?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ61241 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am ddiwygio trefniadau llywodraethiant gwasanaethau tân ac achub Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ61243 **(e)**

Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i liniaru effaith amgylcheddol tomenni glo nas defnyddir?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS ADDYSG

**Sian Gwenllian** *Arfon*

1 OQ61238 **(w)**

Sut y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda’r Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wireddu'r agweddau ar y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol a gyhoeddwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ddiweddar sy'n ymwneud ag addysg uwch?

2

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ61227 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifenydd Cabinet ddatganiad am gyllid ar gyfer adnewyddu ysgolion yn Aberconwy?

3

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ61230 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion?

4

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ61234 **(e)**

Pa arweiniad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi i ysgolion yn dilyn adolygiad Cass?

5

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ61237 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyrhaeddiad addysgol?

6

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

OQ61249 **(e)**

Pa asesiad y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o werth cymdeithasol y sector addysg bellach?

7

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ61257 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer ysgolion ym Mlaenau Gwent?

8

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ61226 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r system addysg ym Mhreseli Sir Benfro?

9

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

OQ61229 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

10 OQ61248 **(e)**

Sut y mae Cwricwlwm Cymru yn annog plant i gysylltu â'r amgylchedd naturiol yn eu cymuned leol?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ61233 **(e)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo treftadaeth Cymru yn y cwricwlwm ysgolion?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

12 OQ61225 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd o ran ei diwygiadau i anghenion dysgu ychwanegol?